



MUNUDAU CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AM 7.30y.h.,
DDYDD MAWRTH, RHAGFYR 5ed, 2017, YN NEUADD ABERCONWY,
EGLWYSBACH.

Oherwydd absenoldeb anochel y Cadeirydd, fe etholwyd y Cynghorydd John Emlyn Jones yn gadeirydd y cyfarfod.

1. CROESO - Fe groesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig felly aelodau'r cyhoedd a oedd yn bresennol yn y cyfarfod i drafod cais cynllunio rhif 0/44539, codi modd mynedfa yng nghoed Tyddyn Iolyn, Eglwysbach.
2. YN BRESENNOL - Y Cadeirydd dros dro, y Cynghorydd John Emlyn Jones a'r Cynghorwyr Arthur Williams; Catherine Williams; Ceri Leeder; Gwenan Roberts; Gwilym Williams; John Ll. Williams a'r Cynghorydd Sir, Austin Roberts
3. YMDDIHEURIADAU - Y Cynghorwyr Gwyn M. Jones a Phyllis Purchase.
4. DATGANIADAU O DDIDDORDEB - Dim.
5. MUNUDAU - PENDERFYNWYD cadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo munudau cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar Dachwedd 7fed, 2017, yn y neuadd, Eglwysbach.
6. Awgrymodd y Cadeirydd, gan fod aelodau o'r cyhoedd wedi dod i'r cyfarfod, drafod y cais cynllunio ar gyfer coed Bryn Iolyn gyntaf, os oedd yr aelodau'n cytuno â hynny. FE GYTUNWYD AR HYNNY.

Fe atgoffodd y Cynghorydd Sir, Austin Roberts, yr aelodau ei fod ef yn aelod o bwyllgor Cynllunio'r Sir a'i fod yn datgelu diddordeb manteisiol, ac na fyddai'n gwneud sylw ar y cais, ond y byddai'n gwranddo ar bryderon yr aelodau ac yn ateb unrhyw gwestiynau manteisiol.

Fe roddodd y Cynghorydd Ceri Leeder i'r aelodau hanes byr ac atgofiad o'r cais a oedd wedi bod ar fynd ers 2015, pan ddeallwyd nad oedd archwiliad Eco wedi ei wneud, ond atgoffodd yr aelodau fod hynny wedi ei wneud yn 2017. Trafododd yr aelodau ac aelodau o'r cyhoedd y cais a dod i'r casgliad eu bod yn dymuno ailadrodd eu gwrthwynebiadau o 2015, sef:-

1. Anaddasrwydd y ffordd.
2. Nid oedd unrhyw awgrym o sut y byddai rheoli'r goedwig yn digwydd.
3. Fe fyddai'n diwydianeiddio safle gwledig.

Trafododd yr aelodau'r gwahanol wrthwynebiadau i'r cais ac fe BENDERFYNWYD GWRTHWYNEBU am y rhesymau canlynol:-

1. Roedd y goedwig o werth hanesyddol fel coedwig hynafol.
2. Fe olygai symud y pren berygl sylweddol i'r cyhoedd ac i ddefnyddwyr y ffordd.
3. Fe achosai ddifrod sylweddol i'r ffordd a'r gwteri gan nad oedd y ffordd yn addas ar gyfer cymaint â hyn o ddefnydd.
4. Fe fyddai'r cais yn difetha'r mwyniant gweledol o'r ffordd fawr.
5. Fe allai achosi difrod a pherygl trwy gludo malurion a mwd i'r ffordd fawr. A phwy a fyddai'n cynnal y ffordd?

Fe fydd y Cynghorydd Ceri Leeder, a oedd yn gyfarwydd â'r cais cyfan, yn cyflwyno adroddiad ar gyfer adran gynllunio'r Cyngor Sir.

Roedd y preswylwyr yn dymuno cofnodi eu diolch i'r Cynghorydd Ceri Leeder ac fe gyflwynon nhw ddeiseb yn erbyn y cais i'r Cyngor. Dywedwyd wrthyn nhw nad oedd y Cyngor Sir ond yn derbyn llythyrau unigol fel gwrthwynebiadau i gais, gan nad yw deiseb yn cyfrif ond fel un llythyr o wrthwynebiad.

7. MATERION YN CODI

12.17/6(i) Pont Bryn Hir. Dywedwyd bod y newidiadau i'r bont i gael eu haddasu, yn enwedig felly'r llifddorau.

11.17/5(i) Y diweddaraf am gyflymder y Band Eang. Dywedodd y Clerc nad oedd wedi derbyn ateb gan BT. Dywedodd y Cynghorydd Austin Roberts y byddai'n gofyn i Mr. Huw McKee am unrhyw awgrymiadau ynglŷn â sut i symud ymlaen.

11.17/5(ii) Y diweddaraf am arosfannau bysiau. Dywedodd y Cynghorydd Austin Roberts ei fod wedi cysylltu gydag Iola Jones, Vic Turner ac Andrew Davison o'r Cyngor Sir i ofyn a allen nhw awgrymu unrhyw ffordd ymlaen. Byddai'n rhaid archwilio polisi'r Cyngor Sir. Awgrymodd ein bod yn aros i dderbyn ateb gan y Cyngor Sir.

11.17/5(iii) Llwybrau troed. Roedd aelod wedi adrodd fod coeden dderw wedi syrthio dros yr afon a llwybr. Roedd hyn wedi ei adrodd wrth berchennog y tir.

11.17/5(iv) Glanhau'r ffordd rhwng Croesangen a Chweffordd, a hefyd i Dŷ'n Twll. I dderbyn e-bost gan y Cyngor Sir. Nid oedd hyn wedi ei drin hyd yma.

11.17/5(v) Gwasanaeth bws X1. Dywedodd y Clerc ei fod wedi ysgrifennu at Arriva Wales i ofyn a ellid cynnwys Eglwysbach ar y ffordd, yn enwedig felly gan fod Gerddi Bodnant enwog ar y ffordd, ac a fyddai o fantais i'r gymuned ac i'r cwmni bysiau.

8. CYNLLUNIO

11.17/6(i) 0/44639 Coed Tyddyn Iolyn. Y mater hwn wedi ei ohirio tan fis Rhagfyr. Roedd hwn wedi ei drafod yn gynharach.

11.17/6(ii) 0/44636 Datganiad cynllunio ynglŷn â Stâd Bodnant, yn y Nythfa (Rookery). PENDERFYNWYD GOHIRIO'R MATER HWN.

11.17/6(iii) 0/44593 a 00/44594 Creu lle parcio yn Wenallt a Derwenfa, Eglwysbach. PENDERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD cyn belled â bod y Cyngor Sir yn hapus gydag unrhyw dystiolaeth archaeolegol a allai ymddangos.

9. ADRODDIAD CYLLIDOL - Ni dderbyniwyd dim.

Cyfrif wrth gefn£

Cyfrif y fynwent£

Cyfrif cyfredol£

10. TALIADAU - PENDERFYNWYD TALU'r holl eitemau a restrir isod:-

12.17/8(i) Cyflog y Clerc£200.00 Siec rhif 201209

12.17/8(ii) Mrs Hayward£98.00 Siec rhif 201206

12.17/8(iii) HMRC£50.00 Heb ei dalu eto.

12.17/8(iv) Neuadd Aberconwy£36.00 Siec rhif 201208

12.17/8(v) Mr J.Ll.Williams, torrwr beddau...£100.00 Siec rhif 201207

Atgoffodd y Cadeirydd y Clerc mai hanner taliad oedd yr £870 am yr hysbysfwrdd.

11. GOHEBIAETH - Dim.

12. UNRHYW FATER ARALL

12.17/10(i) Penodi Archwiliwr Mewnol. PENDERFYNWYD penodi Mrs Marian Pryer o Hartwell, Eglwysbach fel archwiliwr mewnol.

12.17/10(ii) Y Praesept. – GOHIRIWYD hyn tan fis Ionawr.

12.17/10(iii) Y diffibriliwr. Adroddwyd bod ar y diffibriliwr angen ei drwsio. Byddai'r gost o wneud hynny'n ei wneud yn anymarferol. Hyn i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

12.17/10(iv) Dywedodd y Cynghorydd Sir, Austin Roberts, fod archwiliad ward wedi ei gynnal ar Dachwedd 15fed, 2017. Y materion y rhoddwyd sylw iddynt oedd

i. Clirio sbwriel yn yr ysgol.

ii. Matiau ar gyfer y lle chwarae.

iii. Sgaffaldiau anawdurdodedig.

iv. Perchnogaeth y toiledau a oedd wedi eu dynodi fel adran yr ERF.

v. Ailosod yr atalfa cerddwyr.

13. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - Ionawr 2ail, 2018.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod fe orffennodd y cyfarfod am 9.10y.h.

CADEIRYDD.....DYDDIAD.....
.....